



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales



Strategaeth Dinasyddion mewn Plismona

2015



Rhagair

Cyflwyniad gan Gomisiynydd Roddick

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd rhan allweddol o fy rôl ydi cynrychioli buddiannau cymunedau Gogledd Cymru mewn plismona a darpariaeth gwasanaethau plismona. Fi ydi'r bont rhwng y cyhoedd a'r bobl broffesiynol sy'n darparu'r gwasanaeth.


Credaf fod plismona effeithiol yn dechrau gyda chynnwys pobl o'r gymuned yng ngwaith yr heddlu. Pa un a yw hynny drwy ymgynghori, grwpiau cefnogi a chynghori neu wirfoddoli, mae'n bwysig cael presenoldeb cymunedol cryf yn y gwasanaeth plismona.

Ers blynnyddoedd lawer mae swyddogion heddlu gwirfoddol (Swyddogion Gwirfoddol) wedi bod yn rhan o'r gwasanaeth plismona ac maent yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion a staff cyflogedig er mwyn cyfrannu tuag at ddarparu gwasanaethau plismona. Mae'r unigolion hyn yn bobl broffesiynol sy'n rhoi eu hamser a'u hegni i helpu eraill. Maent yn ysbrydoliaeth i'r sefydliad a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth cadetiaid ar gyfer pobl ifanc hanes cryf o gefnogi'r heddlu er lles cymunedau lleol. Gall yr holl wirfoddolwyr ychwanegu gwerth i'r sefydliad drwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a helpu i ddod â'r gymuned leol yn nes at y sefydliad mewn ffordd bositif a brwdfrydig.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r strategaeth hon sy'n hyrwyddo manteision cynnwys gwirfoddolwyr mewn plismona ac edrychaf ymlaen at weld rhagor o unigolion o'r gymuned yn chwarae eu rhan mewn plismona yng Ngogledd Cymru.

Winston Roddick CB QC



Neges gan Y Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru

Rwy'n falch iawn o'r gwirfoddolwyr sydd eisoes yn cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaeth ardderchog i'n cymunedau. Bob blwyddyn maent yn rhoi miloedd o oriau o'u hamser i gefnogi'r gwasanaeth.

Mae'r teulu plismona estynedig yn hollbwysig o ran ein helpu ni i siapio'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau ar draws yr ardal. Mae gwirfoddolwyr, sy'n byw yn y cymunedau lleol, yn ein helpu ni i ymgysylltu gyda, a deall pryderon y cymunedau hyn yn well. Nid yw erioed wedi bod mor bwysig i'r gwasanaeth plismona chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau sy'n fforddiadwy ac sy'n addas i'r heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Mae'r Rhaglen Dinasyddion mewn Plismona yn ceisio symbylu newid sylweddol, er mwyn i ni fanteisio mwy ar y gwerth y mae gwirfoddolwyr yn ei ychwanegu at y gwasanaeth plismona lleol. Rydym eisiau mwyhau'r cyfleoedd sydd ar gael i wirfoddolwyr drwy gynyddu'r nifer o Swyddogion Gwirfoddol a gwirfoddolwyr heb fod mewn lifrai sydd gennym, yn ogystal â chyflwyno'r cynllun cadetiaid ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn agor ein drysau i wirfoddolwyr o wahanol oed sydd ag amrywiaeth eang o sgiliau a doniau.

Bydd gwirfoddoli yn y rolau hyn yn heriol, ond bydd yn rhoi boddhad i'r unigolion ac yn rhoi cyfle iddynt feithrin profiadau a gwybodaeth ar yr un pryd â helpu'r gymuned.

Yn gyfnewid am hyn byddwn ni yn eu hyfforddi a'u cefnogi tra byddan nhw yn mwynhau'r gwmniâeth a'r ymdeimlad o gyflawniad y gall gwirfoddoli ei roi iddynt.

Prif Gwnstabl Mark Polin



Cyflwyniad

Gweithio gyda'n gilydd i wella ein cymuned

Gwirfoddolwr ydi rhywun sydd, drwy ddewis personol, yn rhoi ei amser a'i egni i helpu eraill heb ddisgwyl gwobr ariannol.

Pwrpas y strategaeth ydi rhoi arweiniad i'n staff a'r cymunedau o ran sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cynllunio gyda'i gilydd i gynyddu'r defnydd a wneir o wirfoddolwyr er mwyn ychwanegu gwerth i sut rydym yn darparu gwasanaethau plismona yn ein cymunedau.

Ar hyn o bryd mae gwirfoddolwyr yn hanfodol er mwyn helpu Heddlu Gogledd Cymru i gynllunio a darparu gwasanaethau yn ein cymunedau. Hoffwn gryfhau ein cyflenwad o wirfoddolwyr ymhellach drwy ddatblygu capasiti ac amrywio rolau pan fydd gwirfoddolwyr yn gallu ein cynorthwyo ni mewn meysydd eraill.

Hoffwn annog pobl o bob rhan o Ogledd Cymru i ystyried gwirfoddoli a manteisio ar y cyfleoedd fydd yn cael eu hysbysebu yn ystod y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf. Ar y dudalen gyferbyn mae yna restr o'r math o rolau sy'n cael eu gwneud gan wirfoddolwyr ar hyn o bryd, ond byddem yn croesawu awgrymiadau ynghylch meysydd eraill lle gallai gwirfoddolwyr ein cynorthwyo.



“Gwirfoddolwr ydi rhywun sydd, drwy ddewis personol, yn rhoi ei amser a'i egni i helpu eraill heb ddisgwyl gwobr ariannol.”

Wedi'u cyfarwyddo, hyfforddi a'u datblygu:

- Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu
- Swyddogion Gwirfoddol
- Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol

Yn ymgysylltu gyda, neu'n cael cefnogaeth yr Heddlu:

- Gwarchod y Gymdogaeth
- Crimestoppers Cymru
- Cymorth i Ddiodefyr

Y rhai hynny sy'n cynorthwyo i gynllunio neu gynnal safonau'r gwasanaeth:

- Grwpiau Ymgynghori Annibynnol
- Ymwelwyr Dalfeydd

Datganiad o Fwriad

Mae'r Comisiynydd a Heddlu Gogledd Cymru yn cydnabod gwerth cyfraniad gwirfoddolwyr i'r gwasanaeth plismona a'u rôl o fewn y teulu plismona estynedig. Mae gwerthoedd yr Heddlu yn cynnwys gweithredu fel 'Un Tîm' a gwneud y pethau iawn i helpu ein cymunedau. I'r perwyl hwn ein bwriad ydi cynyddu niferoedd gwirfoddolwyr er mwyn ein galluogi ni i fwyhau ansawdd y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

Mae helpu i wella ansawdd gwasanaethau yn rhan bwysig o'r hyn y gall gwirfoddolwyr ei wneud; maent yn chwarae rôl hanfodol yn tawelu meddwl cymunedau ac yn cynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol. Credwn hefyd y bydd gwirfoddolwyr yn mwyhau ac yn darparu ffyrdd newydd i ni ymgysylltu gyda'n cymunedau.

Byddwn yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli amrywiol o fewn y sefydliad er mwyn galluogi'r rhai hynny sy'n gwirfoddoli i gyfrannu tuag at amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd sef:


- **Atal trosedd;**
- **Darparu ymateb effeithiol;**
- **Lleihau niwed a'r risg o niwed;**
- **Datblygu partneriaethau effeithiol.**

Bydd disgwyliad uchel ar y gwirfoddolwyr i gwblhau tasgau mewn ffordd sy'n cyfrannu tuag at yr amcanion hyn ac sy'n ychwanegu gwerth i'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd.

Yn gyfnewid am hyn gall Heddlu Gogledd Cymru gynnig ffordd i'r gwirfoddolwyr allu cyfrannu tuag at wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Bydd yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau newydd a chyffrous a gwneud cysylltiadau newydd.

Bwriad y strategaeth hon ydi datblygu ein rhaglen wirfoddoli lwyddiannus gyfredol a'i symud i'r lefel nesaf.

Gwerthoedd



Datganiad o Fwriad

Rydym eisiau i'n gwirfoddolwyr:

- Deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu cyfraniad tuag at wasanaethu cymunedau lleol yn cael ei gydnabod.
- Cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a datblygu cyfleoedd newydd i ddarparu gwell gwasanaethau.
- Cynyddu ein cyfrifoldeb cymdeithasol drwy ymgysylltu â chymunedau.
- Ychwanegu gwerth i'r gwasanaethau a ddarperir yn erbyn ein blaenoriaethau strategol.



Comisiynydd Heddlu a Throsedd Winston Roddick a'r Prif Gwnstabl Mark Polin.

Ein bwriad

Ein bwriad fydd i sicrhau:

- Ein bod yn gynhwysol ac yn agored i wirfoddolwyr a'u bod yn cael eu gweld fel aelodau o'r teulu plismona estynedig.
- Bydd gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaeth o ansawdd eithriadol ac sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddiogelwch a lles cymunedau yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo. Er hyn, un o brif egwyddorion gwirfoddoli ydi bod pobl yn gwneud hynny heb ddisgwyl gwobr ariannol.
- Bydd y gwirfoddolwyr yn cael cyfle i chwarae rôl weithredol a siapio dyfodol Heddlu Gogledd Cymru a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.
- Byddwn yn cefnogi'r gwirfoddolwyr er mwyn eu galluogi nhw i ymgysylltu â chymunedau lleol a'u helpu i ddatrys materion sy'n peri pryder iddynt. Hefyd, i annog eraill i wirfoddoli a chymryd cyfrifoldeb dros wella eu cymdogaeth.
- Byddwn yn cyfathrebu gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol er mwyn datblygu llwybrau clir a sianeli cyfathrebu fydd yn ein galluogi ni i adnabod bylchau yn y gwasanaeth y gellir eu llenwi. Hefyd bydd y gwirfoddolwyr yn helpu i wella cyfansoddiad amrywiol ein staff.
- Byddwn yn rhoi cyfarwyddyd clir ac yn arddangos arweinyddiaeth gref i ddarparu fframwaith strategol er mwyn sicrhau bod cyfraniadau'r gwirfoddolwyr yn mwyhau buddion busnes. Bydd hyn yn cynyddu ein capasiti a'n gallu i ddarparu gwasanaethau gwerth da am arian.

Beth fyddwn yn ei wneud?

Rydym eisiau i'n gwirfoddolwyr:

Deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu cyfraniad tuag at wasanaethu cymunedau lleol yn cael ei gydnabod

Ein bwriad:

Byddwn yn sicrhau bod y sefydliad yn gynhwysol ac yn agored i wirfoddolwyr a'u bod yn cael eu gweld fel rhan o'r teulu plismona estynedig. Byddwn yn sicrhau bod gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaeth o ansawdd eithriadol ac sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddiogelwch a lles cymunedau yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Cytuno ar broses recriwtio, dethol a chadw cynhwysfawr.
- Datblygu proses gyflwyno gyda hyfforddiant neu friffiau priodol er mwyn galluogi'r gwirfoddolwr i gyflawni ei dasgau.
- Creu cyfleoedd i wobrwyo a chydabod gwaith da.
- Annog y gwirfoddolwyr i gefnogi datblygiad a gweithrediad y cynllun tactegol er mwyn gallu darparu'r strategaeth.



- Sefydlu sianelau cyfathrebu agored gyda'r gwirfoddolwyr er mwyn eu hannog i gyflwyno adborth am eu rôl a'n helpu ni i wella profiadau gwirfoddolwyr a mwyhau'r gwasanaeth.
- Datblygu Strategaeth Cyfathrebu i hyrwyddo gwaith da yn fewnol ac yn allanol.
- Annog cyswllt ac ymgysylltiad gweithredol gyda chymdeithasau staff er mwyn cryfhau perthnasau rhwng y staff cyflogedig a'r gwirfoddolwyr.

Beth fyddwn yn ei wneud?

Rydym eisiau i'n gwirfoddolwyr:

Gynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a datblygu cyfleoedd newydd i ddarparu gwell gwasanaethau.

Ein bwriad:

Byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd i bawb yn ein cymunedau allu cyfrannu tuag at ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn cael cyfle i chwarae rôl weithredol a siapio dyfodol Heddlu Gogledd Cymru a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Annog unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i fod yn wirfoddolwyr a rhoi cyfle iddynt gyfrannu.
- Ehangu'r nifer o rolau a thasgau sydd ar gael i wirfoddolwyr.
- Annog cymdeithasau staff a rhwydweithiau cefnogi i gefnogi gwirfoddolwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
- Darparu cyfleoedd pellach i Swyddogion Gwirfoddol drwy gynyddu'r niferoedd.
- Datblygu model Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol ar draws Gogledd Cymru a rhoi blaenoriaeth i ardaloedd diamddiffyn.
- Bod yn gymesur gyda'n polisi fetio.

Rydym eisiau i'n gwirfoddolwyr:

Gynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol drwy ymgysylltu â chymunedau.

Ein bwriad:

Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi cefnogaeth a hyfforddiant digonol mewn lle er mwyn galluogi'r gwirfoddolwyr i ymgysylltu â chymunedau lleol a'u helpu i ddatrys materion sy'n peri pryder iddynt ac i annog eraill i wirfoddoli drwy gymryd cyfrifoldeb am wella eu cymdogaeth.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Adnabod ffyrdd y gall gwirfoddolwyr ychwanegu gwerth drwy gefnogi'r unigolion mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau.
- Sefydlu tasgau i'r gwirfoddolwyr sy'n caniatáu iddynt ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau a helpu ardaloedd plismona lleol i ddarparu gwerth am arian drwy gyfleoedd ymgysylltu pellach.
- Gweithio gyda phartneriaid. Edrych ar ffyrdd i ddatblygu gwasanaethau i ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cyfrannu tuag at y broses cyfiawnder adferol.

Beth fyddwn yn ei wneud?

Rydym eisiau i'n gwirfoddolwyr:

Ychwanegu gwerth i'r gwasanaethau a ddarperir yn erbyn ein blaenoriaethau strategol

Ein bwriad:

Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfarwyddyd clir ac yn arddangos arweinyddiaeth gref i ddarparu fframwaith strategol er mwyn sicrhau bod cyfraniadau'r gwirfoddolwyr yn canolbwyntio ar ein hamcanion strategol.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- Cytuno ar, a gweithredu strwythur llywodraethu corfforaethol cyfunol ar gyfer y gwirfoddolwyr.
- Datblygu fframwaith perfformiad er mwyn sicrhau y darperir gwerth ychwanegol yn erbyn yr amcanion strategol.
- Adnabod ardaloedd daearyddol lle gall gwirfoddolwyr gael yr effaith fwyaf.
- Adolygu strategaethau a pholisiau corfforaethau er mwyn sicrhau bod gwirfoddoli wedi cael ei ystyried wrth i ni geisio cyflawni ein hamcanion strategol.



- Sicrhau bod cyfleoedd gwirfoddoli o fewn Heddlu Gogledd Cymru yn cefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Ceisio sicrhau nawdd allanol er mwyn gallu cynnal ein rhaglen wirfoddoli.
- Ceisio cefnogi'r adnoddau presennol ar yr un pryd â darparu gwasanaethau ychwanegol i'n cymunedau.